# CYNGOR LLES
# YSGOL BRO ELWERN





Croeso i Gyngor Lles yr Ysgol. Ein nod yw hyrwyddo lles corfforol, meddyliol ac emosiynol ymhlith disgyblion a staff yr ysgol. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i greu amgylchedd caredig, diogel ac iach, lle gall pawb deimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn gallu ffynnu. Trwy brosiectau cadarnhaol ac ymgyrchoedd ysgol gyfan, rydym yn ymdrechu i
wneud gwahaniaeth go iawn yn ein ysgol.

# HER Y STAFF



Rydym yn trefnu her arbennig i'r staff eleni, bydd pob aelod o staff yn ei chwblhau cyn y Nadolig, o gerddded 100 km i 50 'cipi ypi', i ddysgu iaith neu chwarae offeryn. Ein gobaith yw y bydd hyn yn ein hysbrydoli ni fel disgyblion i gwblhau ein heriau ni hefyd. Gyda chefnogaeth y staff a'n cyfoedion, gallwn ni i gyd-weithio gyda'n gilydd i wella ein hiechyd a'n lles ac i greu ysgol egnïol.

# YN Y DYFODOL AGOS...



Ar ôl y Nadolig, byddwn ni fel cynogr yn trefnu gweithgareddau ar gyfer prynhawn Gwener Gwyrdd. Bydd y gweithgareddau hyn yn gysylltiedig â'r "5 Ffordd at Les", gan roi cyfle i bob disgybl ddysgu sgil newydd, cysylltu ag eraill, neu fod yn fwy actif yn yr awyr agored. Ein nôd yw helpu pawb i ddatblygu ffordd o fyw yn iach ac i fwynhau bywyd hapusach gyda'n gilydd.